# CYFRIFIADURA A THECHNOLEG DDIGIDOL

**O bosibl yn un o’r sectorau sy’n cynyddu a datblygu cyflymaf, mae technoleg ddigidol wrth galon busnes.**

Mae mwy o swyddi na gweithwyr medrus felly mae cyflogwyr wastad yn edrych am recriwtiaid posibl sydd â’r sgiliau hyn. Os ydych yn ddatryswr problemau, yn un sy’n meddu ar ddull gweithredu dadansoddol neu os oes gennych ddiddordeb yn y technolegau diweddaraf, yna dyma’r sector i chi! Cymerwch olwg ar y gwahanol lwybrau gyrfaoedd y gallech chi eu dilyn:

### Datblygwr Meddalwedd
Gelwir y rhain hefyd yn Ddadansoddwyr/Rhaglenwyr, rydych yn gweithio gyda’r defnyddiwr olaf/cwsmer i ddeall eu gofynion. Byddwch yn dylunio, gosod a chynnal rhaglenni, systemau a chymwysiadau cyfrifiaduron sy’n helpu busnesau i redeg yn effeithiol.

### Dylunydd Gwefan
Mae dylunio gwefan yn gofyn creadigedd a llythrennedd cyfrifiaduron. Mae’r cyfrifoldebau yn cynnwys dylunio, gosod a chodio gwefannau, gan sicrhau eu bod yn edrych yn dda, yn gweithredu’n dda ac yn hawdd i’w defnyddio.

### Cynorthwyydd Desg Gymorth
Os ydych yn hoffi helpu pobl a dod o hyd i ddatrysiadau, beth am ddod yn gynorthwyydd desg gymorth? Os oes gennych feddwl technegol a sgiliau cyfathrebu gwych, gallwch helpu defnyddwyr TG i ddatrys eu hanhawsterau.

### Telathrebu
Mae telathrebu yn golygu technoleg sy’n trosglwyddo gwybodaeth, megis setiau teledu a llinellau ffôn. Mae ystod o swyddi’n bodoli o osod, profi ac atgyweirio systemau i gynorthwyo deiliaid contractau a defnyddwyr sydd ag ymholiadau.

## Dolenni Defnyddiol
www bcs org
BCS, y Sefydliad Siartredig ar gyfer TG
www careerswales com
Gwefan Gyrfa Cymru

**£36,305**
**£18.87/AWR**
**CYFLOG NODWEDDIADOL AR GYFARTALEDD YN Y DIWYDIANT HWN**

**CYFANSWM Y SWYDDI YN Y DIWYDIANT HWN**
**28,455** CYMRU
**1,150,103** DU



**BYDD ANGEN 11,000 O BOBL AR GYMRU YN Y SECTOR TECHNOLEG DDIGIDOL ERBYN 2022**

**CAIFF TECHNOLEG EI DDEFNYDDIO YMRON YM MHOB SECTOR. GOLYGA HYN OS YDYCH CHI’N ASTUDIO CYFRIFIADURA A THECHNOLEG DDIGIDOL, BYDDWCH YN GYMWYS AM SWYDDI MEWN ADEILADWAITH, BUSNES, Y CELFYDDYDAU A GOFAL ETC.**

(ffynhonnell EMSI Q1 2018 Dataset/Gyrfa Cymru)

## Beth allaf i ei astudio, ac ymhle?

| | Duration | BG | C | DC | T |
|---|---|---|---|---|---|
| TGCh (Astudiaethau Galwedigaethol) - Lefel 1 | 1 Flwyddyn | ✓ | | | |
| TGCh a Busnes (Astudiaethau Galwedigaethol) - Lefel 1 | 1 Flwyddyn | | ✓ | ✓ | |
| Technoleg Gwybodaeth a Chreadigol - Lefel 2 | 1 Flwyddyn | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Technoleg Gwybodaeth (Diploma Estynedig) - Lefel 3 | 2 Flynedd | | | | ✓ |
| Technoleg Gwybodaeth - Lefel 2/3 | 2 Flynedd | ✓ | | | |
| Technolegau Digidol Colegau Gyrfa - Lefel 3 | 1 Flwyddyn | | ✓ | ✓ | |
| Cyfrifiadura Coleg Seiber - Lefel 3 | 1 Flwyddyn | ✓ | | | |
| Cyfrifiadura - Lefel 3 | 1 Flwyddyn | | ✓ | ✓ | |
| Cymorth Systemau TGCh - Lefel 2 | 1 Flwyddyn | | | ✓ | |